

WILLIAMS, WILLIAM LLEWELYN (1867 - 1922), aelod seneddol, cyfreithiwr, ac awdur

Enw: William Llewelyn Williams

Dyddiad geni: 1867

Dyddiad marw: 1922

Priod: Elinor Williams (née Jenkins)

Rhiant: Sarah Williams (née Davies)

Rhiant: Morgan Williams

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: aelod seneddol, cyfreithiwr, ac awdur

Maes gweithgaredd: Cyfraith; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 10 Mawrth 1867 yn Brownhill, Llansadwrn, dyffryn Tywi (ar 15 Medi 1938 dadorchuddiwyd cofgolofn iddo o flaen y t), yn ail fab i Morgan Williams a'i wraig Sarah (Davies). Yr oedd ei deulu'n dda eu byd, ac yn Annibynwyr o hil gerdd; ei daid, Morgan Williams, yn ddiagon yng Nghapel Isaac cyn symud o'r Ffrwd-wen (Llandeilo) i Brownhill, a dau o frodyr ei dad yn weinidogion, sef JOHN WILLIAMS (1819 - 1869), a fu'n weinidog yn Llangadog gerllaw, ac wedyn yng Nghastellnewydd Emlyn gyda Chapel Iwan (*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 421-2), a BENJAMIN WILLIAMS (1830 - 1886), a fu yng Ngwernllwyn (Dowlais), Dinbych, a Chanaan (Abertawe) ac a oedd yn awdur amryw lyfrau (*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, v, 123-5).

Aeth Llewelyn Williams i Ysgol Llanyddryfri ac wedyn (Hydref 1885) i Goleg Brasenose, Rhydychen. Yr oedd yno pan gychwynwyd Cymdeithas Dafydd ab Gwilym (gweler [T. Rowland Hughes](#) yn *Y Llenor*, 1931, a'i atgofion ef ei hunan yn *Cymru O.M.E.* am 1921); ei 'ffugenw' ynddi oedd enw ei goleg - 'y Trwyn Pres.' Graddiodd yn 1889 yn yr ail ddosbarth mewn hanes, a rhoddwyd ef yn ail orau yn y gystadleuaeth am y 'Stanhope Prize.' Dychwelodd i Gymru i fod yn newyddiadurwr; i ddechrau'n olygydd y *South Wales Star* yn y Barri, ac wedyn yn olygydd y *South Wales Post* (Abertawe); bu am gyfnod ar staff y *South Wales Daily News* (Caerdydd), ac yn ddiweddarach ar staff y *Star* yn Llundain. Ychydig mewn cymhariaeth a sgrifennodd yn Gymraeg; gellir nodi ei ddwy stori, *Gwilym a Benni Bach*, 1897 (ail arg. 1945), efelychiad o'r stori Americanaidd *Helen's Babies*, a *Gwr y Dolau* (1899; ail arg. 1946) - nid oes gamp neilltuol arnynt; a sgrifennodd atgofion diddorol i'r *Beirniad* yn 1917, ' *Slawer Dydd*' - cyhoeddwyd hwy'n llyfr, dan yr un teitl, yn 1918. Yn Saesneg, cyhoeddodd gryn lawer, yn enwedig yng nghylchgronau Cymdeithas y Cymmrodorion o 1900 ymlaen - peth o'r gwaith yn faledau hanesyddol, ond heblaw hynny ysgrifau gwir bwysig ar hanes Cymru, megis yr ysgrif nodedig ar y Catholigion Cymreig ar y Cyfandir (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1901-2); casglwyd nifer o'r ysgrifau hyn yn gyfrol, *The Making of Modern Wales*, yn 1919. Yr oedd ei wybodaeth o gyfnod y Tuduriaid yn sylweddo, ac efe a olygodd arg. 'Everyman' o *History*. A. Froude. Ar gyfnodau eraill, yr oedd braidd yn fymrwyl, fel y dengys ei wrthodiad i wynebu'r ffeithiau am [Owain Lawgoch](#) a '[lolo Morganwg](#).' Yr oedd yn un o garedigion mwyaf yr eisteddfod, a bu'n llywydd Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol.

Troes o newyddiadura at y gyfraith ac at wleidyddiaeth. Galwyd ef i'r Bar o Lincoln's Inn yn Ionawr 1897; bu wedyn yn 'Bencher' yn ei Inn. Daeth yn K.C. yn 1912; yr oedd yn 'arweinydd' ym mrawdlysoedd Deheudir Cymru; bu'n 'recorder' Abertawe (1914-5) a Chaerdydd (1915-22). Wedi anfon ei enw ymlaen droeon am ymgeisiaeth seneddol, etholwyd ef yn 1906 yn aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Caerfyrddin, a daliodd y sedd hyd oni ddiddymwyd hi yn 1918. Rhyddfrydwr o'r hen stamp oedd ef; nid oedd ganddo unrhyw olwg ar sosiaeth. O Rydychen hyd ei fedd, bu'n genedlaetholwr yn anad unpeth arall; ar dir cenedlaetholdeb yn hytrach nag ar sail 'liberationism' crefyddol y cefnogai ddatgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys Wladol yng Nghymru; ac yr oedd yn eiddgar dros ymreolaeth i Gymru (ac i Iwerddon, Llydaw, Fflandrys), ond ymreolaeth o fewn ffrâm y Deyrnas Gyfunol a ddymunai ef - dengys ei ysgrif ar y Deddfau Uno (*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1907-8, a'r bennod gyfatebol yn ei lyfr) mai mantais, i'w feddwl ef, oedd uniad Cymru â Lloegr. Ar bwnc y tir, ei feddyginiaeth ef oedd amlhau rhydd-ddeiliaid, nid cenedlaetholi'r tir. Ni bu neb selocach dros hawliau'r dyn unigol - yr hen ryddfrydiaeth eto. Bodlonodd, braidd yn erbyn ei anian, i gefnogi rhyfel 1914 (ymhell cyn hynny, yr oedd wedi gwrthwynebu mynd i ryfel â'r Boëriaid), yn bennaf am i'r Ellmyn ymosod ar wlad Belg; ond fel y cerddai'r rhyfel, cynyddai ei anesmwythyd yntau - safodd yn erbyn gorfodaeth filwrol, amddiffynnodd y 'gwrthodwyr cydwytodol,' gwingai yn erbyn y 'Defence of the Realm Act,' ac yn y diwedd daeth toriad pendant a digymrodedd rhyngddo a [Lloyd George](#). Pan ymgeisiodd am sedd Ceredigion yn 1921, dygwyd ymgeisydd swyddogol yn ei erbyn, a gorchfygwyd ef, mewn etholiad hynod boeth. Bu farw 22 Ebrill 1922; gadawodd weddw, Elinor (Jenkins, Glan Sawdde).

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Who was who?

ysgrifau coffa (yn enwedig gan J. Arthur Price yn *Y Cymmrodor*, xxxii, 209-22, a'r *The Welsh Outlook*, 1922, 134-5)

Darllen Pellach

Archifau LIGC: [General Election 1906 Wales and Monmouthshire. A Souvenir containing photographs, biographical sketches etc., of all the Welsh MP's: Llewelyn Williams](#)

Archifau LIGC: [The Free Liberal Candidate. To the Parliamentary Electors of the County of Cardiganshire](#)

Erthygl Wicipedia: [William Llewelyn Williams](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [24407315](#)

Wikidata: [Q7945802](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

